# Cynllun Hyfforddi Partneriaeth Pensiwn Cymru 2021/2022

## Cefndir a Rhagarweiniad

Mae'n arfer orau i bersonél PPC gael:

- Gwybodaeth a dealltwriaeth briodol o:
    - y rheoliadau a'r marchnadoedd sy'n gysylltiedig â phensiynau;
    - cyd-fuddsoddi Cronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol; a
    - cyfleoedd buddsoddi perthnasol.

Lluniwyd cynllun hyfforddiant y Bartneriaeth yn atodol at gynlluniau hyfforddiant cyfredol yr Awdurdodau Cyfansoddol. Bydd anghenion hyfforddiant ar lefel leol yn dal i gael sylw gan Awdurdodau Cyfansoddol, tra bydd cynllun hyfforddi'r Bartneriaeth yn cynnig hyfforddiant sy'n berthnasol i weithgareddau'r Bartneriaeth ynghylch cyfuno cronfeydd.

Dylai staff y Bartneriaeth fagu gwybodaeth a dealltwriaeth ddigonol i sicrhau y medrant gyflawni eu dyletswyddau fel y bônt yn gysylltiedig â'r Bartneriaeth.

Dylai'r staff hefyd fod yn ymwybodol o fframwaith y Bartneriaeth, ei chredoau, ei pholisïau a'i matrics llywodraethu, ynghyd â'r broses benderfynu a'r drefn o gofnodi penderfyniadau.

Awgrymir bod staff newydd y Bartneriaeth yn cwblhau hyfforddiant cyflwyno ffurfiol i gyrraedd y lefel o wybodaeth a nodir uchod. Yn dilyn hyfforddiant cyflwyno, mae disgwyl i staff gynnal eu dealltwriaeth o'r eitemau a nodir uchod, gan gwblhau unrhyw hyfforddiant ychwanegol yn ôl yr angen.

I gynorthwyo staff y Bartneriaeth, bydd yr Awdurdod Lletya yn trefnu sesiynau hyfforddiant chwarterol a fydd yn ymdrin â'r prif feysydd megis buddsoddi, gweinyddu, anghenion rheoleiddio, canllawiau'r Llywodraeth a datblygiadau'r farchnad. Noder y bydd yr Awdurdod Lletya yn cadw cofnod dan y cynllun hyfforddiant a fydd yn cynnwys manylion cyfredol o'r holl hyfforddiant y mae staff y Bartneriaeth wedi'i gwblhau, a'r hyfforddiant y bwriedir ei gynnal yn y dyfodol agos.

Yn bennaf, bydd digwyddiadau hyfforddiant y Bartneriaeth yn canolbwyntio ar fodloni anghenion hyfforddiant aelodau'r Gweithgor Swyddogion a'r Cydbwyllgor; fodd bynnag, anogir yr Awdurdodau Cyfansoddol i wahodd Cadeiryddion eu Pwyllgorau Pensiynau hwythau, yn ogystal â Chynrychiolwyr y Bwrdd Pensiynau, os credant y byddai'r hyfforddiant o fudd i'r unigolion hynny.

Mae gan y Bartneriaeth Bolisi Hyfforddiant penodol ac fe ellir ei weld ar wefan PPC. Mae'r polisi yn rhoi rhagor o fanylion ar sut mae PPC yn ymdrin â hyfforddiant a datblygiad.

## Hyfforddiant Unigol

Mae'n bwysig bod unigolion yn meddu ar lefel 'briodol' o wybodaeth a dealltwriaeth o'r gweithgareddau sy'n berthnasol i'w dyletswyddau o fewn y Bartneriaeth, ac yn cynnal y lefel honno.

Yr arfer orau yw bod unigolion yn adolygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth eu hunain bob blwyddyn o leiaf, ac ymgymryd â dysgu pellach ar gyfer unrhyw feysydd a nodwyd fel rhai sydd angen sylw neu ddatblygiad pellach. Dylai unigolion ystyried eu hanghenion dysgu a chofnodi unrhyw weithgaredd hyfforddiant a gwblhawyd, a hysbysu'r Awdurdod Lletya, a fydd yn cynorthwyo'r broses hon drwy ddarparu holiadur anghenion hyfforddiant blynyddol neu asesiad.

## Hyfforddiant 2021/22

Isod, nodir rhestr o bynciau hyfforddi y bydd yr Awdurdod Lletya yn trefnu hyfforddiant ar eu cyfer dros weddill blwyddyn ariannol 2021/22. Mae'r pynciau a amlinellir isod yn seiliedig ar yr ymatebion a dderbyniwyd o holiadur/asesiad gofynion hyfforddi PPC 2020/21, a gyflwynwyd i'r Cydbwyllgor Llywodraethu a'r Gweithgor Swyddogion.

| **Pwnc** | **Dyddiad** |
|---|---|
| **Gwybodaeth am Gynnyrch** | |
| • Marchnad Breifat - Dosbarthiadau Asedau a Gweithrediad | Ch1<br>Ebrill - Mehefin 2021 |
| • Marchnad Breifat - Gorchuddion Cronfa a Llywodraethu | |
| **Buddsoddi Cyfrifol** | |
| • Mynegai a Datrysiadau Buddsoddi Cyfrifol | Ch2<br>Gorffennaf - Medi 2021 |
| • Adrodd am Fuddsoddi Cyfrifol | |
| **Perfformiad Buddsoddi a Rheoli Risg** | |
| • Adrodd ar Berfformiad a Meincnodi Rheolwyr | Ch3<br>Hydref - Rhagfyr 2021 |
| • Rolau a Chyfrifoldebau yn yr ACS | |
| **Canllawiau, Gofynion Rheoleiddio ac Arferion Gorau** | |
| • Llywodraethu Da | Ch4<br>Ionawr - Mawrth 2022 |
| • Tryloywder Costau | |